**Rhybudd o Ymestyn Gorchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro**
**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14**
**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Llwybr Cyhoeddus 18 yng Nghymuned Cei Connah) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2024**

Daeth y Gorchymyn uchod i rym ar 5 Gorffennaf 2024 am gyfnod o 6 mis, hyd at 5 Ionawr 2025, gan gynnwys y dyddiad hwnnw, ac mae’r Gorchymyn wedi’i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru hyd 4 Gorffennaf 2025, gan gynnwys y dyddiad hwnnw.

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod y Gorchymyn uchod a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint ar 5 Gorffennaf 2024 wedi’i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a bydd yn dal mewn grym tan 4 Gorffennaf 2025, gan gynnwys y dyddiad hwnnw, neu nes y cwblheir y gwaith, pa bynnag un sydd gyntaf.

Effaith y Gorchymyn yw atal neb rhag tramwyo ar y rhan honno o Lwybr Cyhoeddus 18 yng Nghymuned Cei Connah sy’n mynd o bwynt wrth ymyl 20 Highmere Drive yng nghyfeirnod grid 32822 36947 at y gyffordd â Lôn Golftyn yng nghyfeirnod grid 32809 36963.

Mae’n rhaid cau’r llwybr am resymau Iechyd a Diogelwch wrth adeiladu datblygiad newydd.

Dyddiedig 13 Rhagfyr 2024



Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
2055188